# FFEDERASIWN

# YSGOL GYNRADD GYMUNEDOL BEDLINOG
# AC YSGOL GYNRADD TRELEWIS

## Dogfen Ymgynghori

## Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Y Cynnig** | |
| **Pam ydym ni'n gwneud y cynnig hwn?** | |
| **1.** | **Beth yw Ffederasiwn?** |
| **2.** | **Buddion y Ffederasiwn** |
| **3.** | **Yr allwedd at Ffederasiwn llwyddiannus** |
| **4.** | **Heriau Gweithredu fel Ffederasiwn** |
| **5.** | **Beth fydd gweithredu fel Ffederasiwn yn ei olygu i chi a'ch plentyn?** |
| **6.** | **Proses y Ffederasiwn** |
| **7.** | **Adeiladwaith arfaethedig y corff llywodraethu** |
| **8.** | **Arweinyddiaeth a Strwythur / Staffio** |
| **9.** | **Trefniadau Derbyn** |
| **10.** | **Beth sy'n digwydd ar ddiwedd y cyfnod ymgynghori?** |
| **11.** | **Amserlen arfaethedig** |
| **12.** | **Cwestiynau Cyffredin** |

| | |
|---|---|
| **Atodiad A – Gwybodaeth i ysgolion** | **7** |
| **Atodiad B – Gwybodaeth Gyffredinol y Ffederasiwn (Cwestiynau Cyffredin)** | **7-11** |
| **Atodiad C – Ffurflen Ymateb** | **12** |

# Beth ydym ni'n ei gynnig?



Fel y byddwch yn ymwybodol ohono, bu Ysgol Gynradd Gymunedol Bedlinog ac Ysgol Gynradd Trelewis yn gweithio'n agos ers mis Tachwedd 2018 fel rhan o drefniant 'anffurfiol'. Ein cynnig yw sefydlu Ffederasiwn Ysgol ffurfiol rhwng Ysgol Gynradd Gymunedol Bedlinog ac Ysgol Gynradd Trelewis erbyn 20 Ebrill 2020, o dan Reoliadau Ffederasiwn Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2014.

- ***Beth yw ystyr y term 'Ffederasiwn'?***

Mae'r term 'Ffederasiwn' yn disgrifio '*...cytundeb ffurfiol a chyfreithiol ble mae ysgolion sydd ynghlwm yn cydweithio mewn partneriaeth ffurfiol o dan* ***un*** *corff llywodraethu.'* Dros y 2 dymor a hanner diwethaf, bu'r ddwy ysgol yn gweithredu o dan ffederasiwn anffurfiol a'r cynnig yw gwneud hwn yn ffederasiwn ffurfiol sy'n golygu y byddai'r trefniant cyfredol yn dyfod yn barhaol, ac y byddai un Corff Llywodraethu sengl yn cael ei sefydlu gan sicrhau gwelliannau i'r ysgol i'r dyfodol. **Nid** yw ffederasiwn yn 'gyfuniad' i greu un ysgol. Mae pob ysgol oddi fewn i'r ffederasiwn yn gweithredu ar ei phen ei hun fel ysgol unigol ymroddedig i sicrhau'r addysg orau bosibl i'w disgyblion gydag un Corff Llywodraethu'n goruchwylio gwaith yr ysgolion.



- ***Beth fydd enw'r Ffederasiwn?***

Mae'r ddwy ysgol wedi bod yn gweithio o dan yr enw 'Partneriaeth Dysgu Taf Bargoed'. Bydd yr enw arfaethedig ar gyfer y Ffederasiwn yn parhau fel 'Partneriaeth Dysgu Taf Bargoed', fodd bynnag, bydd y ddwy ysgol yn cadw eu henwau unigol cyfredol; **'Ysgol Gynradd Gymunedol Bedlinog'** ac **'Ysgol Gynradd Trelewis'.** Bydd Partneriaeth Dysgu Taf Bargoed yn bartneriaeth wedi ei lleoli yn yr ysgol sy'n cynnwys dwy ysgol sy'n rhannu'r un disgwyliadau uchel, a gwerthoedd a chredoau sef y dylai pob plentyn, waeth o ble y daw, gael yr un mynediad at yr addysg orau bosibl; gan eu darparu â'r profiadau a'r cyfleoedd sy'n eu galluogi nhw i gyrraedd eu llawn botensial.

Taf Bargoed LEARNING PARTNERSHIP

## Pam wnaethpwyd y penderfyniad hwn?

Rydym yn cydnabod mai'r unig ffordd o gyflawni ansawdd uchel ac addysgu a dysgu effeithiol yw drwy waith caled ac ymarferwyr ymroddedig yn cydweithio, rhannu ymarfer ac arbenigedd, er mwyn estyn a chyfoethogi profiadau addysgu a dysgu'r disgyblion a leolir yn ein hysgolion.

Wrth weithio â'r ffederasiwn hwn, ceir nifer o agweddau y gall ysgolion eu rhannau â'i gilydd. Rydym yn gwerthfawrogi'r buddion y mae dwy ysgol sy'n cydweithio yn eu cyfrannu at addysg ein Disgyblion ac rydym o'r farn y bydd gweithio yn y fath fodd yn parhau i wella safonau i'n disgyblion o ran y ddwy ysgol sydd ynghlwm. Rydym hefyd yn gwerthfawrogi'r amrywiaeth eang o arbenigedd a phrofiad sy'n bodoli yn y ddwy ysgol ac, er mwyn datblygu ymarfer yn y ddwy ysgol, y mae'n hanfodol fod hyn yn cael ei rannu. Mae yna nifer o feysydd y mae'r ysgol yn parhau i gydweithio arnynt eisoes er mwyn sicrhau ymagwedd effeithiol a chyson a sicrhau defnydd effeithiol o amser ac adnoddau.

Dim ond 2.9 milltir sydd rhwng y ddwy ysgol yn y ffederasiwn.

- **Yn Ysgol Gynradd Gymunedol Bedlinog…**

Gyda chefnogaeth adran addysg Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful gwnaeth y ddwy ysgol gytuno'n wirfoddol i archwilio'r posibilrwydd o weithio mewn ffederasiwn 'anffurfiol' sydd wedi bod yn weithredol ers Tachwedd 2018. Dros y 2 dymor diwethaf bu Pennaeth Gweithredol yn gweithredu yn Ysgol Gynradd Gymunedol Bedlinog gan arwain yr ysgol drwy amrywiadol weithgareddau gwelliant gan gynnwys arolwg diweddar ESTYN a ddynododd nifer o agweddau cadarnhaol o ran symud yr ysgol yn ei blaen. Mae'r niferoedd sy'n gwneud cais am fynediad i'r ysgol yn gwella ac mae'r staff wedi cael cyfle i weithio gyda staff o Drelewis o ran rhannu hyfforddiant ac adnoddau i gefnogi Disgyblion yn y ddwy ysgol.

- **At Ysgol Gynradd Trelewis…**

Mae Ysgol Gynradd Trelewis yn parhau i berfformio'n dda ac mewn safle ble mae'r safonau'n parhau'n uchel ar ôl arolwg Estyn llwyddiannus a ddynododd gryfderau'r ysgol. Fel yn achos Ysgol Gynradd Gymunedol Bedlinog, mae'r staff yn yr ysgol hefyd yn cael cyfleoedd i rannu adnoddau a hyfforddiant ac wedi gwneud hynny dros y 2 dymor diwethaf. Dros y 2 flynedd ddiwethaf, cafodd Ysgol Gynradd Trelewis ei chategoreiddio fel ysgol werdd am y gwaith cyfredol mae'n ei wneud. Eto mae problem yn parhau gan yr ysgol o ran y galw am le ac mae gan yr adran dderbyn swydd sy'n gynyddol anodd o ran clustnodi lleoedd i ddisgyblion yn yr ysgol.

- ***Pa waith sydd eisoes wedi ei wneud rhwng yr ysgolion?***

Bu'r ddwy ysgol yn cydweithio ers Tachwedd 2018 gyda Mr Ryan Morgan, Pennaeth gwreiddiol Ysgol Gynradd Trelewis yn gweithredu fel Pennaeth Gweithredol Ysgol Gynradd Gymunedol Bedlinog ac Ysgol Gynradd Trelewis. Mae'r trefniant hwn yn parhau i gael effaith gadarnhaol ar y ddwy ysgol a bydd yn parhau mewn lle nes bod y ffederasiwn ffurfiol yn cael ei sefydlu ddydd Llun 20 Ebrill 2020.



Wrth ddechrau Ffederasiwn, gall y ddwy ysgol barhau i gydweithio i ddefnyddio'u cryfderau i wella safonau ar draws y ffederasiwn a mynd i'r afael ynghyd ag unrhyw ddatblygiadau cyfredol. Gellir dod o hyd i wybodaeth bellach am y ddwy ysgol – nifer y disgyblion, eu cyrhaeddiad a'u cyflawniad yn Atodiad A.

**Mae rhagor o wybodaeth fanylach ar y tudalennau canlynol i esbonio'r trefniadau ar gyfer y Ffederasiwn, yn ogystal â Phroses y Ffederasiwn.**

## 1. Beth yw Ffederasiwn?

Cytundeb ffurfiol a chyfreithiol yw ffederasiwn pan fo’r ysgolion sydd ynghlwm yn cydweithio mewn partneriaeth ffurfiol o dan un corff llywodraethu.

Byddai pwyntiau allweddol Ffederasiwn rhwng dwy ysgol fel a ganlyn -

- Nid yw Ysgol Gynradd Gymunedol Bedlinog ac Ysgol Gynradd Trelewis yn “cyfuno” – bydd y naill ysgol a’r llall yn cadw ei hunaniaeth unigol, a’i henw, cymeriad, gwisg, staff ac yn cynnal ei chyllideb ddirprwyedig ei hun, ond bydd yn gallu archwilio’r manteision o rannu adnoddau.
- Caiff cyrff llywodraethu cyfredol eu diddymu a bydd un corff llywodraethu yn cymryd eu lle â chyfrifoldeb strategol dros y ddwy ysgol a chyfrifoldeb dros waith, safonau a deilliannau’r ddwy ysgol.
- Caiff pob ysgol ei harolwg Estyn ei hun a phroses categoreiddio.
- Ni all y Ffederasiwn ofyn i staff cyfredol weithio yn y ddwy ysgol, er fe allant wneud hynny os ydynt yn dymuno. Gellir penodi staff newydd i weithio yn y ddwy ysgol.
- Cynigir fod un pennaeth gweithredol yn cael ei benodi i reoli’r Ffederasiwn.

Gellir dod o hyd i wybodaeth bellach am ffederasiynau yn Atodiad B.

## 2. Buddion y Ffederasiwn

- Cydweithio’n effeithiol ac yn gynaliadwy i godi safonau, gwella gwasanaethau a chynyddu cyfleoedd i ddisgyblion a staff.
- Cynnal a chryfhau’r ddarpariaeth o ran taith addysgiadol ffydd ein plant mewn lleoliad ysgol gynradd.
- Hyrwyddo llesiant y plant drwy gynnig profiadau dysgu, ffydd a chymdeithasol ehangach i blant.
- Arweinyddiaeth gref gan ddefnyddio strwythuro arweinyddiaeth a rheoli ffocysedig, gan alluogi arweinwyr a leolir mewn ysgolion i ganolbwyntio ar addysgu, dysgu a chodi safonau.
- Cynnig swydd ddeniadol er mwyn recriwtio a chadw staff drwy ddarparu amrywiaeth o ddatblygu proffesiynol a llwybrau gyrfa i staff ar draws y Ffederasiwn.
- Cyfleoedd newydd i staff gydweithio, cynyddu cymhelliant, lleihau llwyth gwaith ac arwahanrwydd drwy gynllunio a gweithgareddau a rennir.
- Cyfleoedd i rannu adnoddau, yn enwedig o ran chwaraeon, y celfyddydau a cherddoriaeth.
- Gellir cyflawni darbodion maint a symleiddio gweithdrefnau rheoli a gweinyddu gan alluogi rhagor o arian i gael ei wario’n uniongyrchol ar y plant, yn erbyn cefndir o gyllidebau sy’n tynhau.

## 3. Yr allwedd at Ffederasiwn llwyddiannus

- Bydd y ddwy ysgol a’r corff llywodraethu’n cytuno i gydweithio er budd yr HOLL ddisgyblion yn y ddwy ysgol.
- Gweledigaeth a nod a rennir o’r hyn sydd angen ei wneud a sut i wella cyflawniad a chyrhaeddiad ar bob lefel.
- Mae adeiladu ymddiriedaeth rhwng yr holl bartïon a chymunedau yn hanfodol.
- Pawb sydd ynghlwm yn bartneriaid cyfartal.
- Ymwybyddiaeth o berchnogaeth gan y ddwy ysgol.
- Cyfathrebu da â rhieni, staff a disgyblion am y newidiadau a gafwyd gan y ffederasiwn.

## 4. Heriau Gweithredu fel Ffederasiwn

- Adeiladu ymddiriedaeth rhwng llywodraethwyr a chymunedau'r ysgolion.
- Sicrhau ymroddiad llwyr oddi wrth yr ysgol sydd ynghlwm.
- Datblygu gweledigaeth a rennir i'r ysgol.
- Angen sicrhau strwythurau arwain clir.
- Potensial i gynyddu llwyth gwaith i lywodraethwyr ac arweinwyr ysgol yn ystod cyfnod sefydlu'r Ffederasiwn a'r flwyddyn gyntaf.

## 5. Beth fydd gweithredu fel Ffederasiwn yn ei olygu i chi a'ch plentyn?

Mae corff llywodraethu'r ddwy ysgol o'r farn fod ffederasiwn yn darparu'r dull gorau i gefnogi disgyblion, staff a chymunedau Bedlinog a Threlewis.

Mae'r ddwy ysgol eisoes yn ymgysylltiedig â ffederasiwn anffurfiol o ran trefniant gwaith, fodd bynnag mae hyn dros dro ac nid yw'n gynaliadwy i'r naill ysgol na'r llall yn yr hir dymor. Wrth ffurfioli trefniadau drwy ffederasiwn, ceir sicrwydd, rhagor o gyfleoedd i ddisgyblion a staff, gwell safonau a chyflawniad disgyblion yn ogystal â sicrwydd o addysg gyfredol o ansawdd i gymunedau'r ddwy ysgol.

**Ni** fydd Ffederasiwn y ddwy ysgol yn arwain at unrhyw newidiadau sylweddol i'r rhieni na disgyblion a bydd y ddwy ysgol yn parhau yn ôl y trefniant cyfredol.

- Er y bydd y ddwy ysgol yn rhannu corff llywodraethu, byddant yn parhau fel dwy ysgol ar wahân ac yn cadw eu henwau cyfredol.
- Caiff disgyblion eu haddysgu yn yr un ysgolion gan yr un staff.
- Caiff pennaeth gweithredol ei benodi a fydd â'r cyfrifoldeb dros y ddwy ysgol ac a fydd yn rhannu ei amser rhwng y ddau safle.
- Pan na fydd y Pennaeth Gweithredol ar y safle, bydd dirprwy yn gyfrifol am reoli'r safle ond bydd y Pennaeth Gweithredol wrth law i fynd o un ysgol i'r llall os yw'n ofynnol.
- Ni fydd unrhyw newidiadau i'r wisg ysgol, nac i liwiau na bathodynnau ysgol.

## 6. Proses y Ffederasiwn

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno canllaw i ysgolion am Broses y Ffederasiwn.

**Cam 1**: Cyrff Llywodraethu'r ddwy ysgol yn datgan diddordeb yn y posibilrwydd o ffederasiwn, ceisio arweiniad oddi wrth yr Awdurdod Lleol / Awdurdod Esgobaethol, cynnal trafodaethau a chytuno i ystyried dewis y ffederasiwn, hysbysu staff a'r undebau llafur, sefydlu gweithgor a chytuno ar ddyddiad dechrau'r ffederasiwn.

**Cam 2:** Paratoi dogfen ymgynghori, cytuno ar strwythur llywodraethu, enw ar y ffederasiwn, ystyried strwythur staffio a datblygiadau hir dymor strwythur y ffederasiwn a thrafod materion perthnasol ariannol ac adnoddau dynol.

**Cam 3:** Ymgynghori â disgyblion, rhieni, staff, undebau llafur, llywodraethwyr ac unrhyw bartïon perthnasol eraill i gasglu eu safbwyntiau am opsiwn y ffederasiwn.

**Cam 4:** Arweinwyr ysgol, yr awdurdod lleol a'r corff llywodraethu yn dechrau ystyried a diffinio rolau arweinwyr, paratoi strwythur staffio arfaethedig a disgrifiadau swyddi ar gyfer unrhyw swyddi newydd.

**Cam 5:** Paratoi adroddiad i ystyried ymatebion a sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori.

**Cam 6:** Cyrff llywodraethu unigol i gwrdd â phenderfynu'n derfynol a ydynt am barhau gyda'r ffederasiwn ai peidio.

**Cam 7:** Penodi ac ethol corff llywodraethu newydd sengl a gweithredu strwythur staffio newydd.


## 7. Adeiladwaith arfaethedig y corff llywodraethu

Yn unol â Rheoliadau Ffederasiwn Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2014, caiff ei gynnig y byddai cyfansoddiad y corff llywodraethu fel a ganlyn:

| Categori Llywodraethwr | Opsiynau | Cais y Corff Llywodraethu |
|---|---|---|
| Rhiant | Bydd o leiaf dau riant lywodraethwr yn cael eu hethol neu eu penodi i gynrychioli buddion yr holl rieni disgyblion cofrestredig ym mhob ysgol yn y ffederasiwn. | 4<br>(2 o bob ysgol) |
| Athro (Etholedig) | Un ond dim mwy na dau athro lywodraethwr | 2<br>(1 o bob ysgol) |
| Staff (Etholedig) | O leiaf un ond dim mwy na dau lywodraethwr staff | 2<br>(1 o bob ysgol) |
| Awdurdod Lleol (Penodwyd) | O leiaf dau ond dim na phedwar llywodraethwr ALl | 4 |
| Llywodraethwyr Cymunedol Ychwanegol | Un llywodraethwr cymunedol ychwanegol ble mae'r ffederasiwn yn cynnwys ysgol, wedi ei lleoli oddi fewn i ardal cyngor cymunedol. | 1<br>(Cyngor Cymuned Bedlinog a Threlewis) |
| Pennaeth | Pennaeth neu bennaeth dros dro'r ffederasiwn os gaiff un ei benodi, neu bennaeth neu bennaeth dros dro pob ysgol yn y ffederasiwn oni bai fod y personau hynny wedi ymddiswyddo fel llywodraethwr. | 1 |
| Ffederasiwn / cymuned (Penodwyd) | Y personau sydd â'r hawl i benodi'r fath nifer o lywodraethwyr sylfaenol fel eu bod yn fwy mewn nifer na'r holl lywodraethwyr eraill a restrwyd uchod ar yr amod nad ydynt yn fwy nag uchafswm cyfanswm o 27 llywodraethwr. | 4<br>(2 o bob cymuned ysgol) |

## 8. Arweinyddiaeth a Strwythur / Staffio

Caiff y strwythur arwain canlynol o'r ysgol newydd ei ffedereiddio ei gynnig fel a ganlyn:




Mae'r rhagolygon cyfredol yn dynodi y gellir cynnal y trefniadau staffio cyfredol yn y ddwy ysgol. Fodd bynnag, caiff y trefniadau staffio eu hadolygu yn rheolaidd, yn unol â phob ysgol, i sicrhau eu bod yn diwallu gofynion cwricwlaidd ac ariannol.

## 9. Trefniadau Derbyn

Gan na fydd unrhyw ysgol yn cau fel rhan o'r broses ffedereiddio, bydd derbyn disgyblion i'r naill ysgol neu'r llall yn parhau i gydymffurfio â Pholisi Derbyn Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful. Bydd yn parhau i fod yn ofynnol fod Rhieni / Gofalwyr yn gwneud cais am leoedd mewn ysgolion unigol, ac nid gwneud cais am le yn y ffederasiwn. Dewis y Rhieni fydd hyn o hyd.

## 10. Beth sy'n digwydd ar ddiwedd y cyfnod ymgynghori?

Ar ddiwedd y cyfnod ymgynghori, bydd y Gweithgor, gyda chymorth yr Awdurdod Lleol, yn paratoi adroddiad am yr ymgynghoriad.

Yna, caiff yr adroddiad ei gyflwyno i bob corff llywodraethu mewn cyfarfod ar y cyd o'r ddau gorff llywodraethu ble fydd penderfyniad ar a ddylid parhau gyda chynigion y ffederasiwn.

## 11. Amserlen arfaethedig

| | |
|---|---|
| 01 Hydref 2019 – 19 Tachwedd 2019 (6 wythnos) | • Cyfnod ymgynghori (gan gynnwys cyfarfodydd rhanddeiliaid) |
| Cyfarfod ar y Cyd Bedlinog a Threlewis – 28/11/2019 | • Cyrff llywodraethu i gwrdd i ystyried ymatebion a gwneud penderfyniad ar a ddylid ffedereiddio. |
| Erbyn 9 Rhagfyr 2019 | • Hysbysu rhanddeiliaid o'r canlyniad.<br>• Gofyn bod yr Awdurdod Lleol yn gwella Offeryn Llywodraeth ar gyfer y corff llywodraethu newydd ei ffedereiddio.<br>• Ethol / penodi llywodraethwyr i'r corff llywodraethu newydd. |
| 20 Ebrill 2020 | • Ffederasiwn yn dechrau. |

## 12. Cwestiynau Cyffredin

Mae Atodiad B yn darparu detholiad o gwestiynau cyffredin a'r atebion iddynt.

## Atodiad A – Gwybodaeth i ysgolion

**<u>Ysgol Gynradd Gymunedol Bedlinog : Ysgol Gynradd cyfrwng Saesneg, 3-11 yw hon.</u>**
Mae priodoleddau'r ysgol (2019) fel a ganlyn::

| | |
|---|---|
| **Rhif cyfeirnod** | 675 2054 |
| **Nifer ar y Gofrestr (gan gynnwys Anstatudol)** | 91 disgyblion |
| **Cyllideb ysgol yn ôl yr ysgol** | £4491.00 |
| **Prydau Ysgol am Ddim – (Ion 2019)** | 31.1% |
| **Cymhareb Athro Disgybl** | 25.4 |
| **Presenoldeb 2018/19** | 95.01% |
| **Disgyblion sy'n cyflawni Dangosydd Canlyniad y Cyfnod Sylfaen (FPOI)** | 75.0% |
| **Disgyblion sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliadwy yn y pynciau craidd yn CA 2 (CSI)** | 88.9% |

| **Categoreiddiad** | **2016** | **2017** | **2018** |
|---|---|---|---|
| **Lliw** | Melyn | Ambr | Ambr |

**<u>Ysgol Gynradd Trelewis : Ysgol Gynradd cyfrwng Saesneg, 3-11 yw hon.</u>**
Mae priodoleddau'r ysgol (2019) fel a ganlyn::

| | |
|---|---|
| **Rhif cyfeirnod** | 675 2231 |
| **Nifer ar y Gofrestr (gan gynnwys Anstatudol)** | 245 disgyblion |
| **Cyllideb ysgol yn ôl yr ysgol** | £3736.00 |
| **Prydau Ysgol am Ddim – (Ion 2019)** | 13.1% |
| **Cymhareb Athro Disgybl** | 27.8 |
| **Presenoldeb 2018/19** | 94.27% |
| **Disgyblion sy'n cyflawni Dangosydd Canlyniad y Cyfnod Sylfaen (FPOI)** | 76.7% |
| **Disgyblion sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliadwy yn y pynciau craidd yn CA 2 (CSI)** | 100% |

| **Categoreiddiad** | **2016** | **2017** | **2018** |
|---|---|---|---|
| **Lliw** | Melyn | Gwyrdd | Gwyrdd |

## Atodiad B – Gwybodaeth Gyffredinol y Ffederasiwn (Cwestiynau Cyffredin)

**Beth yw Ffederasiwn?**

- Strwythur llywodraethu cyfreithiol yw ffederasiwn sy'n galluogi rhwng dwy a chwe ysgol i rannu un corff llywodraethu.
- Penderfyniad cyrff llywodraethu dan sylw neu'r awdurdod lleol yw dechrau ar gytundeb ffederasiwn.
- Mae pob ysgol sy'n ffederasiwn yn parhau ar agor yn ei chymuned ac yn cadw ei chyllideb, cymeriad, gwisg, trefniadau derbyn ac ethos unigol a bydd yn derbyn arolwg gan Estyn.

**Beth am rôl y Pennaeth?**

- Pan gaiff ffederasiwn ei sefydlu, byddai disgwyl i'r pennaeth wasanaethu'r ddwy ysgol, ond disgwylir i'r pennaeth gael swyddogaeth yn y ddwy ysgol er mwyn clustnodi amser yn deg rhwng y ddwy ysgol.

**Pa fuddion gaiff disgyblion oddi wrth y ffederasiwn?**

Mae ffederasiwn yn cynnig llawer o fuddion:

- Ymgynghoriad i gael mynediad at addysgu arbenigol, chwaraeon tîm ac arbenigedd cwricwlaidd ehangach.
- Parhau i rannu arferion da, paratoi deunyddiau ac adnoddau.
- Parhau i ddarparu cyfleoedd cymdeithasol arbennig i ddisgyblion.
- Parhau i gynllunio cyfleoedd arbennig i'r disgyblion wrth bontio.
- Parhau i ddatblygu, rhannu a meithrin gwybodaeth a sgiliau.
- Mae ysgolion sy'n dechrau ar gytundeb ffederasiwn yn aros yn eu cymunedau ac yn cadw eu hunaniaeth unigol.
- Ychwanegu at fudd, llesiant a chyflawniad cyffredinol yr holl ddisgyblion.

**Sut fydd trefniadau'r ffederasiwn yn gweithio?**

- Ychydig iawn o newidiadau fydd yna i'r diwrnod ysgol fel y mae yn bresennol. Bydd y corff llywodraethu a'r pennaeth yn penderfynu ar strwythur y ffederasiwn a sut i'w weithredu. Yr unigolion hyn fydd yn gwybod orau sut i sicrhau fod gweithrediadau'r ffederasiwn a'r trefniadau'n cysylltu â gofynion y naill ysgol a'r llall.

**Fydd y llywodraethwyr neu'r Awdurdod Lleol yn gwrando ar safbwyntiau'r rhieni yn ystod ymgynghoriadau am gynnig y ffederasiwn?**

- Byddant. Mae'n ofynnol bod y llywodraethwyr a'r Awdurdod Lleol yn ceisio cael safbwyntiau'r rhieni, staff, yr undebau a'r disgyblion, a byddant yn cael cyfle i ddarparu sylwadau ysgrifenedig. Ar ôl derbyn yr holl sylwadau, rhaid i'r llywodraethwyr ystyried y pwyntiau a godwyd a gwneud penderfyniad yn sgil ystyried yr holl ymatebion.

**Fydd yr athrawon a'r disgyblion yn symud o ysgol i ysgol?**

- Nid oes disgwyl i staff na disgyblion cyfredol deithio o'r naill ysgol i'r llall.

**Ai ymarferiad mewn arbed arian yw dechrau trefniad ffederasiwn?**

- Nage, y mae'n ymwneud â chyfuno adnoddau'r ysgol er mwyn parhau i gynnal perfformiad ardderchog, safonau cyflawni ardderchog a chyflawni rhagor er budd y plant e.e. rhannu hyfforddiant ac adnoddau ac arbenigedd staff.

| |
|---|
| **Fydd dechrau trefniant ffederasiwn yn arwain at ysgol yn derbyn llai o arian oddi wrth yr Awdurdod Lleol?**<br>• Na fydd, ni fydd y ffederasiwn yn effeithio ar sut mae cyllideb ysgolion unigol yn cael ei chyfrifo – bydd y ddwy ysgol yn parhau â'u cyllideb eu hunain yn seiliedig ar y nifer o ddisgyblion ar y gofrestr yn yr ysgol ac unrhyw ffactorau eraill. Fodd bynnag, gallai ysgolion gyfuno neu rannu eu cyllidebau. Er enghraifft, pe byddai'r ysgolion am benodi aelod llawn amser o'r staff, neu uwchraddio offer chwaraeon, gallai pob ysgol gyfrannu'n rhannol at y gost allan o'i chyllideb. |
| **Beth yw buddion ariannol ffederasiwn?**<br>• Gall ffederasiwn wella gallu'r ysgol i gyflawni safonau uwch. Dyma rai o'r manteision:<br><br>- Rhannu'r gost o brynu nwyddau a chyfleusterau, yn cynnwys adnoddau drud<br>- Prynu mewn modd sy'n manteisio ar ddarbodion maint ac osgoi dyblygu; a<br>- Darparu rhagor o gyfleoedd e.e. rhyddhau'r pennaeth i gyfranogi mewn cynllunio strategol ar draws y ffederasiwn.<br>- Caniatáu hyfforddiant a rennir a chyfleoedd Cynllunio Cwricwlwm. |
| **A gaiff rhiant lywodraethwyr eu hethol gan y rhieni o'u hysgol hwy yn unig neu o bob ysgol yn y ffederasiwn?**<br>• Rhaid i bob ysgol gael o leiaf un rhiant lywodraethwr wedi ei ethol gan y rhieni yn yr ysgol honno (neu ei benodi gan y corff llywodraethu os nad oes yna riant yn sefyll am etholiad), ond nid yw ysgol yn cael penodi mwy nag un rhiant lywodraethwr.<br>• Os gaiff ei benderfynu y dylai pob ysgol gael un rhiant lywodraethwr, ac os nad oes yna riant yn sefyll mewn etholiad mewn ysgol benodol, neu os mai dim ond un sy'n sefyll, gall y corff llywodraethu sydd wedi ei ffedereiddio benodi rhiant lywodraethwr. |
| **Pa dystiolaeth sydd gennych fod ffederasiynau'n llwyddiannus?**<br>• Mae dogfen gan Lywodraeth Cymru a phapur adolygu Estyn yn cynnwys sawl astudiaeth achos sy'n amlinellu sut wnaeth yr ysgolion hynny elwa o Broses y Ffederasiwn. Cafodd Adroddiad Ofsted ei gyhoeddi yn Lloegr yn 2011 *'Leadership of more than one school - an evaluation of the impact of federated schools'.* Nododd yr adroddiad, 'ym mhob ffederasiwn ymwelwyd ag ef, roedd ffederasiwn o'r ysgolion yn ffactor a gyfrannodd at y gwelliant'. |
| **Sut fydd ceisiadau am dderbyn disgyblion i'r ysgol yn gweithio?**<br>• Ni chaiff derbyniadau eu heffeithio – bydd rhieni yn parhau i wneud cais i bob ysgol ar wahân. |
| **Pam ddylai ysgolion ddechrau ar gytundeb ffederasiwn?**<br>• Mae cydweithredu drwy un corff llywodraethu yn galluogi ysgolion i gynnal safonau darpariaeth addysg leol drwy rannu adnoddau, staff, arbenigedd, yn ogystal â'u harferion da. Bydd y corff llywodraethu sengl yn fframwaith effeithiol ac yn atebol ar gyfer cyfuno adnoddau ysgolion , gan gynnwys cyllidebau staff, rhyddhau amser uwch reolwyr, defnyddio darbodion maint a gwella effeithlonrwydd. |
| **A fydd fy ysgol yn colli ei hunaniaeth wrth ddechrau ffederasiwn?**<br>• Ni fydd ysgolion mewn cytundeb ffederasiwn yn colli eu hunaniaeth er y byddant yn rhannu un corff llywodraethu. Mae'r ysgolion yn cadw eu statws cyfreithiol ar wahân ac yn cael eu dyraniadau cyllidebol eu hunain a bydd pob ysgol unigol yn derbyn Arolwg gan Estyn. Bydd yr ysgolion hefyd yn aros yn eu cymuned ac yn cadw eu cymeriad, enw, ethos a gwisg ysgol unigol yr ysgol. Er bod gan bob ysgol ei chyllideb unigol a'i bod yn atebol iddi, mae'r corff llywodraethu unigol yn darparu cyfle i |

ddefnyddio cyllidebau a rennir ymhlith ysgolion yn y ffederasiwn. Mae ffederasiwn yn gweithio ar y sail fod pob ysgol yn meddu ar ei chryfderau a'i buddion penodol ei hun, boed yn gyfleusterau, staff neu adnoddau.

**<u>Pa drefniadau sydd mewn lle ar gyfer arolwg ysgolion ffederal?</u>**

- Mae dogfen Estyn 'Pryd fydd yr arolwg nesaf yr ysgol yn cael ei gynnal?' yn darparu canllawiau arolwg ysgol ffederal. Mae Rheoliadau Addysg (Arolwg Ysgolion)(Cymru) 2016 yn gofyn bod Estyn yn gwneud arolwg o ysgolion a gynhelir bob chwe blynedd (er bod Llywodraeth Cymru'n ystyried ar hyn o bryd estyn hyn i saith) a pharatoi adroddiad unigol ar gyfer pob ysgol. Byddai hyn hefyd yn addas ar gyfer ysgolion yn y ffederasiwn. Ni all Estyn atal arolwg ysgol am yn hirach na chwe blynedd (neu saith) ers yr arolwg diwethaf ond gall gynnal arolwg mewn modd sy'n sicrhau fod ysgolion mewn ffederasiwn yn gallu cael arolwg yn ystod yr un tymor, yn enwedig pan fo gan yr ysgolion yr un pennaeth. Byddai Estyn hefyd yn ystyried ceisiadau oddi wrth gorff llywodraethu neu Awdurdod Lleol i wneud arolwg o ysgolion yn ystod yr un tymor. Byddai Estyn hefyd yn ceisio sicrhau fod aelodaeth o'r timau arolwg yn y ffederasiwn yn gorgyffwrdd.
- Y mae'n werth nodi, gyda bod Ysgol Gynradd Trelewis wedi cael arolwg yn 2018 ac Ysgol Gymunedol Bedlinog wedi cael arolwg yn 2019, ei fod yn annhebygol y caiff y naill ysgol na'r llall arolwg am beth amser, gan nad yw'r naill ysgol na'r llall yn cael ei monitro. Y mae hefyd yn werth nodi fod y ffederasiwn anffurfiol eisoes mewn lle yn ystod arolwg Estyn yn Ysgol Gynradd Gymunedol Bedlinog a chafodd hyn ei amlygu fel cryfder.

**<u>Beth sy'n digwydd i staff yn y Ffederasiwn? A fydd eu Hamodau Gwasanaeth yn newid?</u>**

- Mewn ffederasiwn, byddai pob aelod o staff yn cael ei gyflogi ar yr un amodau o wasanaeth â'r rhai cyfredol a gan yr un cyflogwr. Pwy bynnag fydd y cyflogwr staff cyfredol fydd y cyflogwr newydd o dan y contract cyflogaeth.
- Does dim disgwyliadau y byddai staff sy'n cael eu cyflogi ar hyn o bryd yn y ddwy ysgol yn gofyn am un contract newydd sengl o dan y ffederasiwn.
- Dylai strategaeth ar y cyd a chynllunio ariannol arwain at allu diogelu swydd yn well yn ystod unrhyw gyfnod o gynilo ar y cyd ac y gallai defnydd gorau gael ei wneud o staff arbenigol, gan gydnabod fod yr holl staff cefnogi ac addysgu yn meddu ar sgiliau a gwybodaeth arbenigol. Gallai staff ddysgu oddi wrth ei gilydd oddi fewn i ymagwedd gydlynol i sicrhau cymunedau dysgu proffesiynol.
- Gall corff llywodraethu'r ysgol benodi aelodau newydd o'r staff i'r dyfodol i weithio ym mhob ysgol yn y ffederasiwn.

**<u>A ellir gosod cyfyngiadau amser ar ffederasiwn?</u>**

- Dylid ystyried ffederasiwn fel ymrwymiad hir dymor. Bydd y cyrff llywodraethu wedi derbyn ystyriaeth fanwl o'r buddion a'r risg cysylltiedig â sefydlu ffederasiwn, gan gynnwys ei effaith ar gyflawniad plant a phobl ifanc. Byddai ffederasiwn yn sefydlu cynlluniau strategol a gosodedig i sicrhau cynaliadwyedd a datblygiad ysgolion. Byddai cynlluniau o'r fath yn rhai tymor canolig a hir dymor. Fodd bynnag mae Rheoliadau Ffederasiwn 2014 yn galluogi ysgolion unigol i adael ffederasiwn, ac yn darparu ar gyfer dod â ffederasiwn i ben. Pe byddai ysgolion a oedd wedi eu cynnwys mewn ffederasiwn a sefydlwyd gan gyrff llywodraeth yn penderfynu gadael y ffederasiwn, yna dylid cytuno ar gais ysgrifenedig pan fydd y corff llywodraethu ffederal yn cyflwyno cynnig.

**<u>Beth yw'r manteision a'r risgiau cysylltiedig â sefydlu ffederasiwn?</u>**

- Mae bod yn aelod o ffederasiwn yn rhoi sawl mantais i ysgolion gan gynnwys dysgu a phrofiadau cymdeithasol ehangach i blant gan arwain at wella perfformiad disgyblion. Bydd ysgolion yn gallu rhannu adnoddau, arferion gorau, cyfleusterau ac arbenigedd. Gellir gosod rhagor o bwyslais ar arweinyddiaeth strategol a strwythurau rheoli a bydd y staff yn caffael cyfleoedd newydd i gydweithio.

Gellir osgoi dyblygu ymdrech a darperir cyfle i hyrwyddo gwell darbodion maint. Mae'r canlynol ymhlith yr heriau/risgiau potensial wrth sefydlu ffederasiwn:

- Angen adeiladu ymddiriedaeth rhwng y llywodraethwyr a chymunedau'r ysgol
- Sicrhau fod y ddwy ysgol gyfranogol yn gwbl ymroddedig.
- Angen gweithredu a datblygu'r cynlluniau a'r weledigaeth a rennir ar gyfer yr ysgol.
- Mae strwythurau arwain clir yn hanfodol.
- Angen sicrhau bod digon o amser i bob aelod deimlo'n gyfforddus am y newidiadau arfaethedig.

Gallai materion godi sy'n cynnwys llywodraethwyr, penaethiaid a staff sy'n gweithio rhwng ysgolion sy'n berthnasol i berthynas ac ymddiriedaeth. Dylai'r corff llywodraethu fod yn ymwybodol o'r risgiau arfaethedig a pharatoi strategaethau a gweithredu mesurau i'w gwella.

## Cais i Ffedereiddio Ysgol Gynradd Gymunedol Bedlinog ac Ysgol Gynradd Trelewis

**FFURFLEN YMATEB**

Darparwch y wybodaeth ganlynol:

1. Enw: ...........................................................................................

2. Rwy'n ymateb fel: Rhiant/Gofalwr ☐

   Llywodraethwr ☐

   Staff ☐

   Arall (rhowch fanylion) ☐ ......................................

3. Sylwadau: ...........................................................................................
...........................................................................................
...........................................................................................
...........................................................................................
...........................................................................................
...........................................................................................
...........................................................................................
...........................................................................................
...........................................................................................
...........................................................................................
...........................................................................................
...........................................................................................
...........................................................................................
...........................................................................................
...........................................................................................
...........................................................................................
...........................................................................................

**Dychwelwch y ffurflen hon i un o'r canlynol:**

- **Swyddfa'r ysgol oddi fewn i bob ysgol**
- **Tîm Cefnogi Llywodraethwyr, CBSMT, Uned 5, Pentrebach, Merthyr Tudful, CF48 4TQ**

## Dyddiad cau ar gyfer ymateb: 19 Tachwedd 2019 am 12:00pm